

Cymorth Cristnogol

Fel y soniwyd yn y rhifyn diwethaf, os oes unrhyw un yn dymuno cyfrannu tuag at y bartneriaeth rhwng Cymorth Cristnogol a'r WFP (World Food Programme), sef asiantaeth ddyngarol flaenllaw sy'n ceisio mynd i'r afael â newyn ar draws y byd er mwyn helpu rhai sydd llawer llai ffodus na ni, mae croeso i chi anfon sic i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', ac fe wnawn dalu'r arian dros y we ar eich rhan. Cofiwch nodi 'Cymorth Cristnogol' ar gefn y sic, os gwelwch yn dda. Nid yn unig maen nhw'n darparu bwyd i'r rhai sydd mewn angen, ond maent hefyd yn ceisio grymuso'r bobl hynny i gynhyrchu eu bwyd eu hunain ar gyfer y dyfodol gan roi cefnogaeth iddyn nhw mewn meysydd tebyg i reoli adnoddau naturiol, cynhyrchu cynydau, cynhyrchu da byw, cynaeafu dŵr ac i gychwyn busnesau bach. O ganlyniad i'r bartneriaeth hon, **am bob £1 a fuddsoddir yn y cynllun gan Gymorth Cristnogol, mae'r WFP yn cyfrannu £67**, felly'n cynyddu'r effaith lawer gwaith trosodd.

Bydd yr arian yn cael ei gyfrannu iddynt ddiwedd y mis hwn, felly byddem yn ddiolchgar o dderbyn pob cyfraniad **erbyn 31 Hydref fan bellaf**, os gwelwch yn dda. Diolch o galon am eich cefnogaeth ac am bob cyfraniad sydd eisoes wedi dod i law. Fel y gwyddoch, mae'r angen i ddangos gofal a chariad at eraill a chefnogi ein gilydd yn fwy amlwg fyth y dyddiau hyn.

Adnoddau

- **Os nad ydych yn defnyddio'r we, mae modd i chi wrando a gwylio'r oedfa a ddarlledir ar y Sul ar DVD, neu gallwch wrando ar CD, neu ddarllen copi papur o'r gwasanaeth.** Rhowch wybod i Mair os byddwch yn dymuno un o'r cyfryngau yma a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.
- **Gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim.** Gallwch wrando unrhyw bryd ar oedfa gyfan sydd wedi'i recordio gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru trwy ffonio 02920 101564, ac yna pwysu '1' i gael y gwasanaeth Cymraeg.
- **Ar gyfer yr oedolion, mae taflenni cwestiwn ac ateb ar gael.** Cysylltwch â Mair os hoffech gael copi (ar bapur neu ar ebost) a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy.
- **Ar gyfer plant, mae gwersi ysgol Sul ar gael dros ebost.** Cysylltwch â Rhodri.
- **Adnoddau eraill:** ar wefan www.gair.cymru ac ar wefan www.holi-cymru.org.

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 18 Hydref 2020

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

'Er nad yw'r ffigysbren yn blodeuo, ac er nad yw'r gwinwydd yn dwyn ffrwyth; er i'r cynhaeaf olew ballu, ac er nad yw'r meysydd yn rhoi bwyd; er i'r praid ddarfod o'r gorlan, ac er nad oes gwartheg yn y beudai; eto llawenychaf yn yr Arglwydd, a llawenhaf yn Nuw fy iachawdwriaeth.' (Habacuc 3:17-18)

Gyda'r mynegiant hyfryd yma o obaith a llawenydd mewn cyfyngder y mae'r proffwyd Habacuc yn disgrifio ei sefyllfa yn yr Hen Destament. Ac wrth i ninnau geisio gwneud synnwyr o'r hyn sy'n digwydd yn ein cyfnod ni, diolchwn y gallwn droi at yr un Duw trugarog sydd wedi sicrhau iachawdwriaeth i'w bobl trwy anfon ei annwyl Fab i'r byd.

Wrth edrych ar y newyddion dros yr wythnosau diwethaf, nid yw pethau'n edrych yn dda. Nid yn unig rydym yn clywed am niferoedd sydd wedi'i heintio yn cynyddu mewn gwahanol ardaloedd, ond rydym hefyd yn ymwybodol o'r tensiynau sydd yna rhwng gwahanol garfannau a llywodraethau ynglŷn â'r mesurau priodol i geisio delio â'r argyfwng. Cyfyngiadau lleol neu genedlaethol? Gwahardd teithio, neu annog pobl i ddefnyddio synnwyr cyffredin? Gall y dadlau a'r anghytuno fod yn ddigon diflas, ond beth sy'n amlwg yw nad oes unrhyw ganllawiau na chyfyngiadau yn mynd i wneud gwahaniaeth os nad yw pobl yn cymryd sylw ohonynt! Wrth gwrs, mae yna gyfrifoldeb ar brif weinidogion ac arweinwyr i wneud penderfyniadau doeth ac i roi arweiniad, ond ni fydd hynny'n gwneud tamaid o wahaniaeth os yw'r boblogaeth gyffredinol yn diystyru'r hyn sy'n cael ei ddweud! Mae gofyn i bawb ohonom ystyried y ffordd yr ydym yn gweithredu oherwydd fel mae'r ystadegau yn awgrymu, gall esgeulustod unigolion arwain at ganlyniadau trychinebus.

Ac mae'r un peth yn wir wrth i ni ystyried ein ffydd. Wrth ddarllen Mathew 8 yn ddiweddar, sylwais mor aml yr oedd pobl yn dod at Iesu i ofyn am ei help. Dro ar ôl tro, mae pobl mewn gwahanol fathau o drybini yn ceisio cymorth Iesu ac yn profi o'i ddaioni a'i allu rhyfeddol wrth iddo drugarhau wrthynt. Mor hawdd fyddai i'r bobl anghenus yma ddiystyru'r hyn yr oeddent wedi ei glywed am y gŵr o Nasareth gan dybio nad oedd y newyddion da amdano'n berthnasol iddynt hwy. Ond trwy gydol ei weinidogaeth mae Iesu yn gwrthbrofi'r camsyniad hwnnw. Deliodd yn gariadus gyda phobl oedd yng nghanol pob math o drybini, pechod, a dryswch yn eu bywydau. A dyna'r gobaith i ni heddiw hefyd. Os ydym mewn ing personol,

neu'n profi ansicrwydd oherwydd y pandemig presennol, cofiwn fod newyddion da lesu'n berthnasol ac yn galw arnom i ymateb mewn ffydd. 'Os wnei di gyffesu 'â'th wefusau', "Iesu ydy'r Arglwydd", a chredu 'yn dy galon' fod Duw wedi'i godi yn ôl yn fyw ar ôl iddo farw, cei dy achub.' (Rhufeiniaid 10:9 Beibl.net)

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Sul yma – 18^{fed}

(a hefyd
Tachwedd 1^{af})

- **Ysgol Sul ar-lein**

Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.

- **Oedfa FYW ar y we**

Cynhelir oedfa fyw ar y we am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. Gallwch ymuno â'r oedfa o dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled. (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)

- **Sgwrs ar ZOOM**

Yn dilyn yr oedfa, bydd cyfle i bwy bynnag sy'n dymuno i gael sgwrs ar ZOOM. (Bydd y manylion cysylltu yn cael ei ebostio i bawb sy'n derbyn Llais Bro Aled ac ar gael hefyd ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled.)

- **Cwrs Alfa Ieuentid**

Bydd y Cwrs Alfa Ieuentid yn cyfarfod ar ZOOM.

- **Cwrs Alfa Oedolion**

Bydd y Cwrs Alfa Oedolion yn cyfarfod ar ZOOM.

- **Cyfarfod Gweddi**

Mae croeso i unrhyw un ohonoch i ymuno yn y Cyfarfod Gweddi fydd yn cael ei gynnal **am 7:30 yr hwyr**, eto ar ZOOM. Holwch Rhodri i gael y manylion cysylltu ac/neu os oes gennych unrhyw geisiadau gweddi.

- **Ysgol Sul ar-lein**

Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.

- **Oedfa ar y we**

Cynhelir oedfa ar y we am 10:30 gyda'r **Parch. Meirion Morris yn pregethu**. Gallwch ymuno â'r oedfa o dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled. (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)

Llun – 19^{eg}

Mawrth – 20^{fed}

Mercher – 21^{ain}

Sul – 25^{ain}

- **Sgwrs ar ZOOM**

Yn dilyn yr oedfa, bydd cyfle i bwy bynnag sy'n dymuno i gael sgwrs ar ZOOM. Mae'r Parch. Meirion Morris yn gobeithio medru ymuno hefo ni am sgwrs hefyd. (Bydd y manylion cysylltu yn cael ei ebostio i bawb sy'n derbyn Llais Bro Aled ac ar gael hefyd ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled.)

Llun – 26^{ain}

Mawrth – 27^{ain}

Sul – 1^{af}

- **Cwrs Alfa Ieuentid** (ar ZOOM)

- **Cwrs Alfa Oedolion** (ar ZOOM)

(Gweler manylion dydd Sul, 18 Hydref)

Cofion

Yr ydym yn codi yn ein gweddïau heddiw eto bawb sydd mewn angen. Cofiw'n rhai ohonoch sy'n galaru am anwyliaid, pawb sy'n wael eu hiechyd, y rhai sy'n wynebu llawdriniaeth yn y dyddiau nesaf, a'r rhai sy'n aros am wahanol driniaethau. Cofiw'n hefyd bawb sy'n teimlo'n unig, y rhai sy'n pryderu ynghanol y cyfnod anodd hwn ac eraill ohonoch sydd angen ein gweddïau am amrywiol resymau. Fe'ch cyflwynwn oll i ofal Duw gan weddio y byddwch yn profi Duw yn agos ac yn gwarchod drosoch.

Estynnwn ein cydymdeimlad heddiw â Gwilym Davies (Llansannan) a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei frawd, Ieuan. Cofiw'n amdanynt yn ein gweddïau gan hyderu eu bod yn profi nerth a chysur yr Arglwydd yn eu galar a'u hiraeth amdano.

Parhawn i gofio hefyd am John H. Williams (Llanefydd) yn ei waeledd. Diolchwn amdano ac am bob gofal y mae'n ei dderbyn, a gweddiwn y bydd yn parhau i adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu dros y dyddiau nesaf hyn. Gofynnwn Iddo gysgodi dros y teulu hefyd ac y byddant yn adnabod Ei gariad yn eu hamgylchynu.

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

(Mair Owen, Bryn Goleu, Llansannan, Dinbych LL16 5LF)

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (28^{ain}), os gwelwch yn dda.